**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 20 Tachwedd 2019

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Yr Aelod Arweiniol dros Les ac Annibyniaeth a'r Aelod Arweiniol dros Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd / Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau

**Awdur yr Adroddiad:** Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau

**Teitl:** Adolygiad AGC o Berfformiad Awdurdod Lleol 2018 – 2019

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn nodi'r materion allweddol sy'n codi o adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o berfformiad Cyngor Sir Ddinbych wrth weithredu ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae copi o'r llythyr adolygiad llawn wedi ei atodi fel Atodiad 1.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

I sicrhau fod y Pwyllgor yn ymwybodol o'r gwerthusiad perfformiad ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol gan gynnwys meysydd o gynnydd, meysydd i'w gwella a risg.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Argymhellir bod yr Aelodau yn ystyried gwerthusiad AGC ac yn ystyried a oes angen unrhyw archwilio pellach. Mae Uwch Reolwr AGC yn bwriadu mynychu'r cyfarfod i alluogi Aelodau i gael eglurder ar unrhyw elfen benodol o'r llythyr adolygu.

**4. Manylion yr Adroddiad**

4.1 Mae llythyr blynyddol AGC yn darparu adborth ar weithgaredd archwilio a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn; adroddiadau ar gynnydd mae'r awdurdod lleol wedi ei wneud mewn gweithredu'r argymhellion o'r archwiliadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion; ac mae'n amlinellu rhaglen gwaith i'r dyfodol AGC.

4.2 Mae'r llythyr yn darparu crynodeb o'r cryfderau a'r meysydd ar gyfer gwella. Mae'r meysydd a nodwyd fel rhai lle mae angen gwelliannau yn unol ag Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe fyddant yn cael eu hymgorffori o fewn Cynlluniau Busnes y Gwasanaeth ar gyfer 2019 – 2020.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae’r archwiliad yn darparu persbectif allanol o berfformiad y Cyngor mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd yr ymateb i gyflawni camau gweithredu gwella yn cael eu hintegreiddio i mewn i Gynlluniau Busnes Gwasanaeth ar gyfer 2019/2020. Bydd cyflwyno'r cynlluniau hyn yn cael ei reoli o fewn yr adnoddau ariannol presennol.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?**

Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les oherwydd nid yw'r adroddiad hwn yn gofyn am benderfyniad a fydd yn arwain at unrhyw newid ar gyfer staff neu'r gymuned ehangach. Bydd Asesiadau o’r Effaith ar Les yn cael eu cwblhau ar flaenoriaethau unigol os ydynt angen i brosiectau ddechrau a/neu i benderfyniadau gael eu gwneud.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Mae cyfarfodydd ymgysylltu a drefnwyd yn cael eu cynnal gyda'r Uwch Dîm Rheoli ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol ac AGC sy’n helpu i lywio’r gwerthusiad yn ogystal ag asesu cynnydd o ran cyflawni gwelliant.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Fel y nodwyd uchod mae’n bwysig fod unrhyw gostau’n ymwneud â’r cynlluniau gwella a’r camau gweithredu yn cael eu cynnal o fewn y cyllidebau blynyddol lle mae arian yn gyfyngedig ar gyfer y gwasanaeth a gytunwyd a hynny ar sail flynyddol.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risgiau’n gysylltiedig â gweithredu argymhellion yr adroddiad hwn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**